**PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**

**Dydd Llun, 4 Chwefror 2013 (4.00 o'r gloch)**

Gweler ynghlwm os gwelwch yn dda adroddiad wedi cael ei farcio "IDDILYN" I Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a oedd heb gyrraedd erbyn yr amser penodol.

**5** **E-DDEMOCRATIAETH TGCH I AELODAU** (Tudalennau 1 - 2)

Cyflwyno adroddiad gan y Rheolwr Gwasanaethau TGCh.

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ENW Y PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD:** | **4 CHWEFROR 2013** |
| **TEITL:** | **E-DDEMOCRATIAETH I AELODAU** |
| **AWDUR:** | **RHEOLWR GWASANAETHAU TGCh** |

Fel rhan o raglen foderneiddio’r Cyngor mae’r Cyngor ar hyn o bryd yn gweithredu’r System Rheoli Pwyllgor Modern Gov. fydd yn helpu’r Cyngor i gyflawni ei ddyletswyddau democrataidd.  Mae’r system yn ei gwneud yn bosibl i ddarparu a rheoli rhaglenni pwyllgorau, papurau a phenderfyniadau yn electronig ac mae ar gael ar-lein i swyddogion, aelodau etholedig a dinasyddion.

Y bwriad yw mabwysiadu Modern Gov. fel system safonol ar i’r holl aelodau yn dilyn yr etholiadau sydd ar ddod ym mis Mai ac mae’r Pwyllgor Gwaith presennol a rhai uwch swyddogion yn awr yn derbyn dogfennau cyfarfodydd Pwyllgor ar ddyfeisiadau tabled iPad trwy Modern Gov. fel rhan o’r cyfnod cychwynnol o’i ddefnyddio.  Mae’r dyfeisiadau hyn hefyd yn darparu cysylltiad e-bost i gefnogi Aelodau i gyflawni eu dyletswyddau gyda’r bwriad o gyfathrebu yn electronig yn y dyfodol a newid o arferion o anfon dogfennau papur.

Bydd pob iPad yn cysylltu i’r System Modern Gov. trwy ddefnyddio Wifi (diwifr) neu gellog (fel a ddefnyddir gan ffonau symudol) ac mae cynlluniau mewn lle i gael mynediad Wifi yn Siambr y Cyngor ac yn ardaloedd yr aelodau yn yr ychydig wythnosau nesaf.

Rhoddwyd hyfforddiant i Aelodau’r Pwyllgor Gwaith fis Rhagfyr ar ddefnyddio’r iPads ac fe drefnwyd hyfforddiant pellach ym mis Chwefror yn benodol ar y System Modern Gov. Y bwriad yw rhoi iPad i’r holl Aelodau yn dilyn etholiadau Mai 2013.  Bydd cefnogaeth a chymorth priodol yn cael eu darparu.

Yn ystod 2011/12 roedd cyfanswm y costau oedd yn gysylltiedig â chynhyrchu papurau Pwyllgor (papur, llungopïo a phostio) yn £40,000.  Bydd rhoi iPad i bob Aelod yn y Cyngor newydd yn costio £10,000 i’w gyllido o’r arbedion ar gynhyrchu papurau Pwyllgor.

Unwaith y bydd wedi ei mabwysiadu'n llawn bydd y System Modern Gov. yn darparu arbedion sylweddol ac yn galluogi i bapurau Pwyllgor, rhaglenni, penderfyniadau a chofnodion gael eu dosbarthu ar amser yn ogystal â gostyngiad mewn costau argraffu a phostio.

Bydd yr Aelodau hefyd yn nodi bod adroddiad ar wahân gan y Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Democrataidd yn ceisio cael safbwyntiau'r Pwyllgorau ar y gefnogaeth a ddarperir i Aelodau er mwyn cyflawni dyletswyddau.  Y cynnig yn y dyfodol yw darparu iPads yn lle gliniaduron i Aelodau.

Gofynnir i'r Aelodau gadarnhau'r bwriad i fabwysiadu Modern Gov. ar gyfer moderneiddio arferion gweithio ynghyd a'r bwriad o ddefnyddio iPad i bob Aelod o'r Cyngor ar ôl etholiadau Mai 2013.

**Barry Eaton**
**Rheolwr Gwasanaethau TGCh** **28/01/13**